Croeso i gylchlythyr cyntaf Cymdeithas Gwenynen Gwent.

Lansiwyd y Gymdeithas yn Llanofer ar y 12fed o Hydref, pan gafwyd prynhawn bythgofiadwy, gyda dros chwe chant o bobl yn ymuno yn yr hwyl. Mwynhad pur i bawb oedd gwylio dawnsiau traddodiadol deugain aelod o Gwmni Dawns Werin Caerdydd, a gwrando ar sain hudolus telynau teires Y Rhes Ganol. Ymunwyd yn y dathlu gan dair cenhedlaeth o ddisgynyddion presennol Gwenynen Gwent, a'n Llywydd, Elizabeth Murray, sef gor-gor-gor wyres yr Arglwyddes, yn mynegu ei boddhad wrth dderbyn rhodd ar ran y Gymdeithas, sef tarian yn dwyn arfbais Coleg Llanymddyfri, yr ysgol breswyl a sefydlwyd gan ei hynafiad.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Cyntaf y Gymdeithas a'i Darlith Flynyddol yng Ngwesty'r Angel, Y

Fenni ar ddiwrnod penblwydd yr Arglwyddes, sef 21ain o Fawrth, 2004. Yn y cyfamser, derbynied ein dymuniadau gorau am Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Da.

NADOLIG YN LLANOFER YM 1837

Gorffennwyd adeiladu Llys Llanofer ym 1837, ac fel rhagarweiniad i dymor y Nadolig, ar y 4ydd o Ragfyr fe fyddai Benjamin ac Augusta Hall yn dathlu pen blwydd eu priodas, ac yn mwynhau gwledd a dawns yng nghwmni eu gwahoddedigion a'u gwasanaethyddion. Yr wythnos cyn y Nadolig, mwynheid miri'r Fari Lwyd, gyda digonedd o ddanteithion yn barod ar gyfer y rheiny fyddai'n gorffen eu cylchdaith ganu wrth ddrws y Llys.

Noswyl y Nadolig, aent i'w gwelyau'n gynnar, a hynny er mwyn gallu codi gyda'r wawr i fynychu gwasanaeth blygain eglwys y plwyf. Ond cyn mynd i'w llofftydd, roedd yn rhaid iddynt ddilyn defod draddodiadol ryfedd, a mynd gyda'i gilydd 'i weld y tatws yn y seler'. Dim ond rhagarweiniad i ddiwrnod o wledda a llawenydd oedd gwasanaeth yr eglwys. Addurnid Neuadd Fawr y Llys gydag uchelwydd, celyn a bytholwyrddion eraill, ynghyd ag arwyddeiriau Cymreig, a'r bwyd bob amser ar y byrddau'n brydlon am 1.30.

Darperid chwe bwrdd ar gyfer y tenantiaid, a fedrai ddewis rhwng dwy ysgwydd o gig dafad rhost, pum ysgwydd o gig dafad wedi'i grasu, a dwy goes cig dafad wedi'u cigweinio. Yn ogystal, fe geid pedair hanner rownd o gig eidion, yn pwyso 24 pwys yr un, pedair rownd o gig eidion wedi'i ferwi, yn pwyso 38 pwys yr un, un darn anferth o gig eidion wedi'i gigweinio o flaen y tân, saith asen fras, saith gwydd, saith pastai syrth neu ddriblwns, hanner can pwdin nadolig a dau gant a deugain o basteiod mins. Gwnaed y pasteiod wrth ddilyn un o resáitiau arbennig Llanofer, yr oedd ei fersiwn gwreiddiol yn cynnwys cyrens, sudd a chroen lemwn, siwgwr, almonau melys, sinamon, nytmeg, sbeis pergibyn, afalau a maro. Yn ddiweddarach newidiwyd y resáit i ateb chwaeth gyfoes, gan hepgor y maro, a chan gynnwys bîff wedi'i falu, rhesins, siwed, croen lemwn siwgrog, sitron a gwin. Gellir cael amcan o faintioli'r pwdinau o'r resáit ei hun, oherwydd dywedir ynddo fod y defnyddiau 'yn ddigonol ar gyfer ugain pwdin'. Gofynnid am 34 pwys o flawd, 10 pwys o siwed, 10 pwys o resins di-hâd, 7 pwys o gyrens a 6 phwys o siwgwr, ynghyd â pherlysiau a chroen lemwn siwgrog.
Mae resáit arall yn awgrymu defnyddio mesurau cyfartal o bob cynhwysyn, gyda lemwns siwgrog a sitron i'w hychwanegu yn ddiweddarach yn ôl y dewis.

Ar ben hynny, fe ddarparwyd deg pwdin reis a wnaethpwyd gyda siwed, reis, wyau, siwgwr a resins di-hâd ynghyd â deg tarten afalau, deg teisen gyrens a deg cacen garwe. Pentyrrid orennau, afalau, cnau a chacennau sinsir ar bob bwrdd, gyda chroeso i bobun gymryd gymaint ag a fynnai.

Hoe, wedyn, i dreulio'r pryd bwyd, a thelynor y llys yn cyfeilio i datganiadau cerddorol y tenantiaid mwyaf talentog, a hwythau'n derbyn gwobrau am eu hymdrechion.

I'r sawl oedd yn rhy sâl neu'n rhy fusgrell i adael eu cartrefi a dod i'r plas, fe anfonid anrhegion megis saig o gig, lluniaeth amrywiol, neu basteiod, a, lle bo angen, fe anfonid tanwydd a dillad.

Wedi'r adloniant, dosbarthwyd y gwobrau ar gyfer y cystadlaethau, a'r rhain yn gystadlaethau a ddyfeisiwyd yn gelfydd, fel bod gan bob tenant y posibiliad o ennill rhywbeth. Amrywiai'r gwobrau a gynigiwyd o wobr am y ddiadell orau o ddefaid Cymreig (boed ddu neu wyn), i wobr am y maip neu'r llysiau eraill gorau, am y gerddi gorau neu am y bwthyn a wyngalchwyd orau (a hynny i gynnwys yr allandai a'r cytiau moch).

Dilynid hyn oll gan de-parti enfawr i'r plant gyda digonedd o deisennod a jelïau. Wedyn, am chwech o'r gloch, fe ddechreuai'r dawnsio, a elai ymlaen tan hanner nos, gyda hoe nawr ac yn y man ar gyfer cân neu ddwy i gyfeiliant y delyn. Gyda'r jigiau a'r rîliau, elai'r noson rhagddi'n gyflym, a dyma lle cychwynnwyd dawnsio rîl enwog Llanofer, mawr ei sôn.

Bum niwrnod wedyn, fe fyddent yn dathlu Nos Ystwyll, gyda theisen Nos Ystwyll anferth i'w bwyta, ac addurniadau'r Nadolig i'w tynnu lawr, a'u rhoi heibio tan y flwyddyn nesaf.

Maxwell Fraser Talfyriad a chyfieithad o erthygl a ymddangosodd yn gyntaf yn Saesneg ac a gyhoeddwyd yn Y Genhinen cyf. 11 (1961).

Yn fyr o syniadau am Anrhegion funud olaf?
Mynnwch danysgrifiad i ffrind o feddylfryd tebyg.
Ymgysyllter â **Brian Forder** ar
01446 796695 neu trwy e-bostio
b.forder@ukonline.co.uk

Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Fe gewch ymweld â'n gwefannau yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydded yn amyneddgar!
Fe fydd y ddwy yn weithredol yn ddi-oed.

www.gwenynengwent.org.uk a www.ladyllanover.org.uk.